

# Canllawiau ymarferol ar gyfer recriwtio defnyddwyr gwasanaethau a chynrychiolwyr gofalwyr

Dyma'r arfer gorau a argymhellir wrth recriwtio cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

Cydnabyddir y bydd hyblygrwydd prosesau yn amrywio rhwng sefydliadau statudol mawr a gwasanaethau llai yn y trydydd sector neu'r sector preifat. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae mwy o ymwneud â phrosesau recriwtio, er enghraifft yn y GIG, nag yn y rhan fwyaf o sefydliadau'r trydydd sector. Yn y GIG, mae defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn aml yn ymwneud â'r broses ddethol staff trwy fod ar baneli cyfweld a chael dylanwad dros y cwestiynau cyfweliad a ofynnir i'r ymgeiswyr. Fodd bynnag, mae diffyg hyblygrwydd o ran sut mae swyddi'r GIG yn cael eu hysbysebu a sut mae ceisiadau'n cael eu cyflwyno. Gwneir hyn ar hyn o bryd trwy broses ar-lein o'r enw 'Tracs'.

Mae pwy sy'n recriwtio'r defnyddwyr gwasanaethau a'r gofalwyr yn effeithio ar faint y gall defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr eraill fod yn rhan o'r broses recriwtio. Rhaid ystyried hyn wrth benderfynu pwy fydd yn recriwtio pobl i rolau ymgysylltu a chyd-gynhyrchu.

## Proses Recriwtio

### Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr - cael arweinyddiaeth yn y broses recriwtio

Mae'n briodol bod defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn dewis eu cynrychiolwyr. Felly, dylid gwahodd pobl sydd eisoes yn cymryd rhan fel defnyddiwr gwasanaeth neu ofalwr i ffurfio grŵp i arwain y broses recriwtio. Gallai'r grŵp hefyd gynnwys cynghorydd annibynnol (person sydd â phrofiad recriwtio) a pherson perthnasol o'r sefydliad recriwtio.

## Dylunio Rôl

Bydd y grŵp arweinyddiaeth yn arwain ar ddatblygu rôl gan ddefnyddio proffiliau rôl presennol yn y canllawiau hyn (gweler Atodiad 3 ) a'u haddasu ar gyfer y rôl/sefydliad penodol. Bydd disgrifiad y rôl yn disgrifio sut y bydd pobl yn cael eu hamddiffyn rhag canlyniadau oherwydd cymryd rhan.

## Gwybodaeth am y Rôl

Mae angen i wybodaeth i'r cyhoedd am y rôl fod yn hawdd ei deall. Mae gwybodaeth yn darparu manylion am y sefydliad gan gynnwys:

- a) Diben y sefydliad
- b) Sut gallwch chi wneud gwahaniaeth
- c) Diwylliant
- ch) Gwerthoedd
- e) Beth i'w ddisgwyl
- f) Sut mae pethau'n cael eu gwneud
- g) Pwy yw Pwy – yn y sefydliad gan gynnwys aelodau eraill
- h) Strategaethau ymgysylltu a recriwtio sefydliadau

Bydd angen sicrhau bod yr wybodaeth hon ar gael drwy wahanol sianeli e.e. digwyddiadau grŵp, gwefannau sefydliadau (gan gynnwys gwefan y Fforwm) a chylchlythyrau, Byrddau Partneriaeth Iechyd Meddwl Lleol, Llywodraeth Cymru a'u rhwydweithiau, meddygfeydd teulu a Thimau Iechyd Meddwl Cymunedol, Llyfrgelloedd, lleoliadau darparwyr trydydd sector eraill.

## Hysbysebu

Bydd hysbysebu'r rôl drwy rwydweithiau lleol a chenedlaethol yn dibynnu ar y math o rôl. Awgrymir y canlynol i'w hystyried:

- a) Papurau newydd lleol
- b) Radio lleol a/neu ysbyty
- c) Gwefannau'r sector cyhoeddus
- ch) Gwefannau'r trydydd sector
- d) Gwefan y Fforwm
- dd) Cyfryngau cymdeithasol
- e) Cylchlythyrau sefydliadol
- f) Fferyllfeydd lleol, meddygfeydd teulu, optegwyr
- ff) Timau/hybiau/canolfannau Iechyd Meddwl Cymunedol
- g) Canolfannau galw heibio
- ng) Banciau bwyd

## Dewisiadau ar gyfer dethol

Bydd y dewisiadau ar gyfer dethol yn dibynnu ar ffurfioldeb a lefel ymgysylltu'r rôl. Y dulliau i'w hystyried o'r lleiaf i'r mwyaf ffurfiol yw:

- a) Gwahoddiad agored
- b) Hunan-ddewis/gwirfoddoli
- c) Sgwrs anffurfiol – wyneb yn wyneb, llwyfannau rhithwir, ac ati
- ch) Digwyddiadau grŵp
- d) Mynegiant o ddiddordeb – gall fod ar lafar neu'n ysgrifenedig
- dd) Gwahoddiad ffurfiol
- e) Cyfweiliad anffurfiol
- f) CVs
- ff) Ffurflen gais
- g) Cyfweiliad ffurfiol

Mae angen i'r dewis fod yn hyblyg i ddiwallu anghenion unigol.

## Atodiad 1

### Disgrifiad Rôl ar gyfer Aelodau'r Bwrdd Defnyddwyr Gwasanaethau a Gofalwyr

#### BWRDD PARTNERIAETH IECHYD MEDDWL LLEOL

**PENODIAD:** DEFNYDDIWR GWASANAETHAU NEU OFALWR O'R BWRDD

#### YN ATEBOL I'R

**CANLYNOL:** Defnyddwyr Gwasanaethau Lleol a Gofalwyr

**CYMORTH:** Bydd aelodau'n cael eu cefnogi gan weithiwr yn y sefydliad cymorth a gomisiynwyd yn lleol

**GWEITHIO GYDA:** Rhwydweithiau Defnyddwyr Gwasanaethau a Gofalwyr Lleol

**CYFLOG:** Gellir talu oriau a weithir ar y Cyflog Byw (£9.00 yr awr ar hyn o bryd)  
Teithio a threuliau ychwanegol

#### CYFNOD Y

**PENODIAD:** Open ended with three yearly reviews

#### YMRWYMIAD

**AMSER:** Cymryd rhan ym Mwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl Lleol  
Mynychu pob cyfarfod cynrychiolwyr is-grwpiau a phwyllgorau perthnasol eraill  
Grwpiau defnyddwyr gwasanaetha a gofalwyr

#### Cyflwyniad

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl Lleol yn goruchwylio cyflawni a gweithredu strategaeth Llywodraeth Cymru "Law yn Llaw at Iechyd Meddwl – Strategaeth ar gyfer Iechyd Meddwl a Llesiant yng Nghymru" a'i Chynllun Cyflawni yn lleol. Mae'r Bwrdd hefyd yn adrodd ar gynnydd lleol i'r Bwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl Cenedlaethol..

#### Rôl y Bwrdd

Bydd y Bwrdd Partneriaeth Lleol yn darparu arweinyddiaeth, dylanwad a chymorth i

sicrhau bod y Strategaeth a'i Chynllun Cyflawni yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus. Mae'n atebol i'r Bwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl Cenedlaethol a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Nid oes gan y Bwrdd unrhyw bŵer statudol. Daw ei awdurdod a'i ddylanwad gan yr aelodau sy'n cymryd rhan ac yn dylanwadu ar newid a'u trefniadau atebolrwydd eu hunain. Mae atebolrwydd am ddarparu gwasanaethau yn parhau gyda'r sefydliadau statudol perthnasol a'r darparwyr o sectorau eraill a bydd eu rheolaeth perfformiad yn digwydd trwy fecanweithiau presennol ac **nid** trwy'r Bwrdd Partneriaeth Lleol.

### **Atebolrwydd a Chymorth**

Mae aelodau'r Bwrdd Defnyddwyr Gwasanaeth a Gofalwyr yn atebol i Ddefnyddwyr Gwasanaethau a Gofalwyr yn lleol. Bydd aelodau'r bwrdd Defnyddwyr Gwasanaethau a Gofalwyr yn cyfarfod yn rheolaidd â Defnyddwyr Gwasanaethau a Gofalwyr yn eu hardal mewn cyfarfodydd a digwyddiadau cynnwys Defnyddwyr Gwasanaethau a Gofalwyr lleol.

Bydd y gweithiwr yn y sefydliad cymorth a gomisiynwyd yn lleol yn sicrhau bod aelodau'r Bwrdd Defnyddwyr Gwasanaeth a Gofalwyr yn cael y cymorth angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni eu rolau. Bydd pobl yn cael eu hamddiffyn rhag unrhyw ganlyniadau o ganlyniad i gymryd rhan.

Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cytuno i weithdrefnau a pholisïau lleol a chenedlaethol.

### **Cyfrinachedd a Gwrthdaro Buddiannau**

Diffiniad: Gwrthdaro buddiannau yw pan allai gweithgareddau unigolyn (boed yn ariannol neu'n bersonol) beryglu trafodaeth a/neu wneud penderfyniadau mewn grŵp neu gyfarfod.

Disgwylir i Aelodau'r Bwrdd hysbysu Cadeirydd y Bwrdd Iechyd Meddwl Lleol pan fo gwrthdaro buddiannau posibl yn ymwneud ag eitem benodol ar yr agenda.

### **Cyfrifoldebau allweddol aelodau'r Bwrdd Defnyddwyr Gwasanaethau/ Gofalwyr:**

Bydd o leiaf ddau aelod o'r Bwrdd Defnyddwyr Gwasanaethau a dau aelod o'r Bwrdd Gofalwyr yn cael eu penodi i'r Bwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl Lleol. Yn ddelfrydol, byddai pob awdurdod lleol yn cael ei gynrychioli. Bydd dau ddirprwy hefyd yn cael eu penodi a all gysgodi aelodau mewn cyfarfodydd a chamu i mewn os na all aelodau fynychu cyfarfod.

Bydd gofyn i Aelodau'r Bwrdd Defnyddwyr Gwasanaethau a Gofalwyr chwarae rhan unigol a chyfunol ar y Bwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl Lleol, y fforwm Defnyddwyr Gwasanaethau a Gofalwyr Cenedlaethol a chyfarfodydd a digwyddiadau Defnyddwyr Gwasanaethau a Gofalwyr Lleol. Rydym yn cynghori aelodau'r bwrdd i ddatgan pryd maent yn rhoi persbectif unigol neu grŵp ar eitemau ar yr agenda neu mewn trafodaethau.


Y cyfrifoldebau allweddol yw:

1. Mynychu cyfarfodydd ac is-bwyllgorau Bwrdd y Partneriaeth Iechyd Meddwl Lleol, yn ôl yr angen.
2. Mynychu fforwm Defnyddwyr Gwasanaethau a Gofalwyr Cenedlaethol i ddarparu persbectif lleol ar lefel genedlaethol.
3. Mynychu amrywiaeth o gyfarfodydd a digwyddiadau y cytunwyd arnynt sy'n canolbwyntio ar Ddefnyddwyr Gwasanaethau a Gofalwyr i roi adborth ar yr hyn sy'n digwydd ar lefel leol a chenedlaethol ac i gasglu barn Defnyddwyr Gwasanaethau a Gofalwyr.
4. Cynnal cyfarfodydd rheolaidd a chysylltu â'r aelod staff a ddirprwywyd i gefnogi'r cynrychiolydd sydd wedi'i leoli yn y sefydliad cefnogi a gomisiynwyd yn lleol er mwyn sicrhau cysondeb amcanion cyffredinol gweithgaredd Defnyddwyr Gwasanaethau a Gofalwyr.

Nid yw'r dyletswyddau a amlinellir uchod yn gynhwysfawr ond maent yn ganllaw i gyfrifoldebau cyfredol a phrif gyfrifoldebau'r rôl. Felly, mae'n anochel y bydd cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r rôl hon yn amrywio ac yn datblygu. Yng ngoleuni hyn, efallai y bydd disgrifiad y rôl yn cael ei adolygu ac efallai y bydd angen ei newid. Bydd newidiadau o'r fath mewn ymgynghoriad â deiliaid y rôl.

### **Strwythur Presennol ar gyfer Bwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl Lleold**

Isod mae diagram i ddangos sut mae aelodau'r bwrdd Defnyddwyr Gwasanaethau a Gofalwyr yn gyswllt hanfodol rhwng grwpiau lleol, y Bwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl Lleol a Fforwm Iechyd Meddwl a Llesiant Cymru.



Mae Defnyddwyr Gwasanaethau a Gofalwyr yn mynychu'r Bwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl Cenedlaethol, ac maent yn mynd trwy broses recriwtio ar wahân i gynrychioli lleisiau Defnyddwyr Gwasanaethau a Gofalwyr ar lefel genedlaethol ledled Cymru.

## Manyleb Person

### Meini Prawf Hanfodol

- Defnyddiwr Gwasanaethau, cyn-Ddefnyddiwr Gwasanaethau neu Ofalwr neu gyn-Ofalwr
- Wedi defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl neu wedi gofalu am rywun sydd wedi defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl yn ystod y 5 mlynedd diwethaf
- Yn gallu ymrwymo amser i fynychu cyfarfodydd a fforwm Byrddau Partneriaeth Iechyd Meddwl Lleol
- Yn gallu gweithio ar ei ben ei hun a/neu fel rhan o dîm
- Trin pawb ag urddas, goddefgarwch a pharch

### Meini Prawf Dymunol

- Yn gallu sefydlu cysylltiadau cryf â grwpiau Defnyddwyr Gwasanaethau/Gofalwyr
- Yn gallu cyfrannu at y Bwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl Lleol, Is-grwpiau, fforwm Iechyd Meddwl a Llesiant Cymru a chyfarfodydd a digwyddiadau Defnyddwyr Gwasanaethau/Gofalwyr lleol
- Yn gallu cynrychioli barn Defnyddwyr Gwasanaethau/Gofalwyr eraill
- Yn gallu cadw i fyny â materion iechyd meddwl lleol a chenedlaethol
- Yn siaradwr Cymraeg
- Profiad o waith pwyllgor neu waith tebyg
- Yn gallu cyfathrebu ag amrywiaeth o bobl wahanol (Defnyddwyr Gwasanaethau,

Gofalwyr, Gweithwyr Iechyd Meddwl ac Uwch Reolwyr).

- Sgiliau ysgrifennu adroddiadau
- Yn gallu cyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- Yn meddu ar sgiliau TG neu'n barod i ddysgu
- Ymgymryd â hyfforddiant a datblygiad yn ôl yr angen
- Yn deall sut a phryd i fod yn hyderus
- Yn deall sut a phryd i fod yn heriol, mewn modd adeiladol
- Cyfathrebu'n effeithiol yn ystod cyfarfodydd gan ddilyn agenda a chadw at y pwnc/pwynt
- Yn gallu mynychu hyd at 3 chyfarfod cenedlaethol y flwyddyn (sy'n digwydd mewn gwahanol ardaloedd ledled Cymru)
- Ysbrydoli, dylanwadu a chynrychioli eraill

